



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

21 Chwefror 2018

Adroddiad gan: Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol GwE

Testun: Bwrdd Ymgynghorol GwE

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1. Darparu adroddiad ar drafodaethau'r Bwrdd Ymgynghorol yn eu cyfarfod diwethaf.

2.0 Cefndir

2.1 Rôl Bwrdd Ymgynghorol GwE yw: herio mewn ffordd adeiladol a chyfrannu at ddatblygu'r strategaeth er mwyn grymuso'r sefydliad i gyrraedd ei amcanion; ystyried a gwneud argymhellion i'r Cyd-bwyllgor ynglŷn â'r cynllun busnes blynyddol; monitro ac adolygu perfformiad rheolwyr er mwyn cyflawni'r nodau ac amcanion; a monitro adrodd ar berfformiad.

2.2 Mae'r Bwrdd Ymgynghorol yn adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor.

2.3 Yn Atodiad 1, gweler adroddiad o'r cyfarfod diwethaf (06/02/18).

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Nid oes unrhyw ymgynghori wedi digwydd hyd yma.

8.0 Atodiadau

Atodiad 1: Adroddiad o'r cyfarfod 06/02/18

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim sylwadau i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

Atodiad 1:

Cafwyd trafodaeth ddwys ar ddau fater sydd o gryn bwys i ddatblygiad addysg yng ngogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf:

- i. Dashfwrdd
- ii. Cynllun i ddatblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg

1. Dashfwrdd – G6

Roedd gwir werthfawrogiad o'r gwaith sydd wedi ei gychwyn gan GwE mewn perthynas â'r dashfwrdd.

Gwerthfawrogydd y cyflwyniad trylwyr gan Llyr Gilmour Jones a'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud yn ei gyn-ysgol ac erbyn hyn ar draws sir Ddinbych.

Gwelir yma gyfle i wir hwyluso :

- Trefn casglu gwybodaeth am ysgolion unigol
- Y gallu i gymharu ysgol ac ysgol / awdurdod ac awdurdod
- Adnabod yn gyflym yr ysgol/ion sydd angen eu targedu

Gofynnwyd sawl cwestiwn i'r swyddogion:

- Gofynnwyd a oes sicrwydd bod person yn GwE yn gwasanaethu'r drefn gan sicrhau bod y wybodaeth yn hollol gyfredol. Nodwyd gan y Bwrdd Ymgynghorol fod angen bod uwchben y gwaith hwn yn y tymor canol a'r tymor estynedig gan nad yw trefn fel hyn ond cystal â chywirdeb y data a fwydir i mewn.
- Gofynnwyd a oedd cyflymder y system yn mynd i waethygu fel bydd mwy a mwy o ddata yn y system. Cadarnhawyd bod y cwmni yn gallu optimeiddio'r system i wella hyn.
- Gofynnwyd a oedd yr Ymgynghorwyr yn abl i ddefnyddio'r wybodaeth eang sydd yn y system er mwyn targedu yn gywir anghenion yr ysgolion
- Holwyd sut y byddai hyn yn gallu cefnogi llywodraethwyr ysgolion er mwyn iddynt fedru herio arweinyddiaeth yr ysgol
- Codwyd y posibilrwydd o blethu arfarniad ac effaith hyfforddiant ar unigolion ac ar yr ysgol berthnasol. Roedd angen gwaith pellach ar hyn, ond roedd potensial i'w ddatblygu.

Mae potensial arbennig i'r cyfrwng hwn ehangu yn llawer pellach na'r drefn sydd yn cael ei dreialu ar hyn o bryd. Mae'n drefn fydd yn gwyrddio trefn Awdurdodau, GwE, Penaethiaid a'r tîm Rheoli yn ogystal â llywodraethwyr ysgol i ddatblygu gwybodaeth eang sydd yn rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid i gefnogi a herio gwaith y sefydliadau.

Mae'r gwaith yn cael ei ymestyn ar draws holl ysgolion GwE yn ystod y tymor hwn.

2. Cynllun i Ddatblygu'r Gweithlu i Gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg

Cafwyd trosolwg o'r prosiect gan Eleri Ll.Owen, Rheolwr Prosiect, Esyllt Maelor, Cydlynnydd a Bethan Eleri Roberts, Rheolwr Rheoli Perfformiad gan roi'r pwyslais ar ddatblygu gallu'r gweithlu ar draws y gogledd ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn ein sefydliadau addysg

- Roedd arbenigeddau cryf iawn ymysg sawl aelod o'r Bwrdd gan gynnig syniadau pellach i'r tîm i weithredu arnynt: roedd hi'n hanfodol sicrhau gweithio agos iawn gyda Cholegau Addysg Pellach
- Cafwyd trafodaeth hynod effeithiol o'r angen i gydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac i ddatblygu cyfleoedd i bobl ifanc gael defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- Nodwyd bod cwmnïau megis Horizon ac Airbus yn gweld gwir werth i allu dwyieithrwydd eu gweithlu. Felly mae'n angenrheidiol cael y negeseuon hyn i ysgolion ac i'r bobl ifanc yn eithaf buan yn eu gyrfa ysgol fel eu bod yn gweld gwir werth i'r Gymraeg
- Nodwyd gan aelod o'r Bwrdd enwau allweddol unigolion a sefydliadau sydd eisoes yn gweithio yn y maes. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd gwahanol brosiectau yn ail-greu'r olwyn.
- Cafwyd cryn drafodaeth hefyd am yr angen i weithio gyda chonsortia eraill i hyrwyddo'r gwaith

Codwyd ambell i gwestiwn i'r tîm eu hystyried ymhellach; er enghraifft:

- Cwestiynwyd natur yr ysgolion peilot. Roedd y Bwrdd eisiau sicrhau bod trawstoriad o ysgolion yn y cynllun peilot fel nad ysgolion brwd dros y Gymraeg yn unig oedd yn y sampl. Roedd y Bwrdd o'r farn bod y sialens o weithio ac i ddatblygu'r ysgolion "llai brwdfrydig" yn rhoi gwell darlun o'r sialens oedd yn wynebu'r gwaith.

Cafwyd sesiwn hynod effeithiol gyda'r Bwrdd yn gwir weithredu fel Bwrdd Ymgynghorol. Roedd aelodau'r Bwrdd yn herio, yn cwestiynu ac yn cynnig syniadau.

Roedd y Bwrdd Ymgynghorol yn wirioneddol gefnogol i'r datblygiadau hyn.